CYNGHRAIR YSGOLION A CHEFNOGWYR

Gweithgor: Thomas Prys Jones, Myrddin ap Dafydd, Ieuan Wyn, Ffred Ffransis
Cydlynydd; Sian Parri, Tŷ Capel Pen y graig, Llangwnnadl, Pwllheli, Gwynedd LL53 8NT
www.ysgol.co.uk E-bost: post@ysgol.co.uk

Annwyl Riant/Rieni,

Y mae 51 o ysgolion cynradd Gwynedd wedi uno i alw ar Gyngor Gwynedd i roi'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn y ddogfen "Adrefnu Ysgolion Cynradd y Sir er lles Addysg holl blant Gwynedd" o'r neilltu yn gyfan gwbl a dechrau o'r dechrau efo llechen lân.

Yr oedd pryder na roddwyd fawr o sylw i farn rhieni a chyrff llywodraethol yn ystod y cyfarfodydd ymgynghorol cychwynnol. Cafodd hyn ei gadarnhau pan gyhoeddwyd y cynlluniau yn y ddogfen uchod. Dyma a ddywedodd Y Cynghorydd Penri Jones, a oedd yn Arweinydd y Gwasanaeth Addysg, am y cynlluniau: "Yn hytrach na gwrando, 'roedd y swyddogion wedi neidio i'r pegwn eithaf arall. Anodd fyddai dychmygu cynllun mwy dinistriol ac eithafol." Er i Penri Jones, a oedd wedi'i benodi i fod yn gyfrifol am y Gwasanaeth Addysg, wrthod y cynllun mor chwyrn, ni wrandawyd arno.

Yr ydym i gyd yn gyfarwydd â'r gwrthwynebiadau, protestiadau, llythyrau a'r llanast cyffredinol a achosodd y ddogfen yma yn ystod y misoedd canlynol. Gwyddom hefyd na wrandawyd ar ein barn ni rieni, llywodraethwyr a phentrefwyr.

Yn y cyfnod yma, a chyda chyngor a chefnogaeth Thomas Prys Jones, Myrddin ap Dafydd, Ieuan Wyn a Ffred Ffransis, tyfodd y Gynghrair Ysgolion a Chefnogwyr i gynnwys 51 o ysgolion, nifer o sefydliadau, mudiadau, Cynghorwyr a nifer o unigolion profiadol eraill. Gobeithio y bydd yr undod yma yn creu llais digon uchel fel y bydd yn rhaid gwrando arno y tro hwn.

Mae'r Gynghrair yn gofyn ar i Gyngor Gwynedd gwblhau ymchwiliadau pellach gan edrych ac ystyried sefyllfa pob ysgol yn unigol, gan roi ystyriaeth hefyd i ddatblygiadau ac ymchwil pellach gan y Cynulliad, ac yna greu cynllun newydd yn seiliedig ar y rhain yn ogystal â barn rhieni a llywodraethwyr.

Lles ein plant sydd flaenaf i ni oll. Rhaid i ni gydweithio er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'r Cyngor ar ddyfodol pob ysgol yn rhai dilys a chywir. Ac er mwyn gofalu fod y cydweithio yma yn gallu digwydd, rhaid i'r Cyngor adennill ein hymddiriedaeth er mwyn symud y trafodaethau yn eu blaenau.

Os ydych yn cytuno fod y gofynion hyn yn deg a rhesymol, gofynnwn i chi fel rhieni unigol hefyd ymuno â'r Gynghrair drwy lofnodi'r ffurflen isod a'i dychwelyd i'r ysgol.

- - - -